



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Gylch Meithrin Aberporth MYM  
Caban yr Urdd  
Aberporth  
Aberteifi  
Ceredigion  
SA43 2EN**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/07/2013

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Aberporth dros 40 o flynyddoedd yn ôl. Mae'r cylch wedi ei leoli mewn caban ger neuadd y gymuned. Mae'r cylch yn cynnig darpariaeth cyfrwng Gymraeg i blant pentrefi Aberporth a Parclyn, yn ogystal ag i blant o ardaloedd eraill, cyfagos. Mae'n rhan o ddarpariaeth Mudiad Meithrin ar ran Partneriaeth Plant Ceredigion.

Mae lleiafrif o'r plant yn y cylch yn dod o gartref ble'r Gymraeg yw unig iaith y cartref. Yn ystod yr arolygiad roedd chwech o blant tair oed yn mynychu'r cylch. Mynycha'r plant am dair awr a chwarter y dydd, pum diwrnod yr wythnos. Mae lleiafrif o'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff y cylch ei staffio gan arweinydd, is-arweinydd a chymhorthydd.

Mae'r caban a ddefnyddir gan y cylch yn gymharol fach ond mae lle chwarae addas i'r plant y tu allan.

Mae'r ardaloedd o dan anfantais economaidd a diffinnir y ddwy ardal yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae gallu'r plant yn amrywio pan gychwynnant yn y cylch. Ar ddiwedd eu cyfnod yn y cylch, bydd bron pob plentyn yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Aberporth lle byddant yn parhau i dderbyn eu haddysg cyfrwng Gymraeg. Mae gan y ddwy ymarferydd arweiniol gymwysterau addas yn addysg y blynyddoedd cynnar. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym Mawrth 2013 a gan Estyn ym Mai 2007.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol y lleoliad</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r lleoliad</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Cylch Meithrin Aberporth yn dda oherwydd bod:

- llawer o'r plant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn y cylch;
- medrau siarad a gwrando'r plant yn datblygu'n dda;
- bron pob plentyn yn dangos mwynhad wrth chwarae ac agweddau da tuag at ddysgu;
- y cylch yn cynnig ystod eang o brofiadau sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen;
- staff yn annog y plant i fod yn ddysgwyr llwyddiannus; a bod y
- staff yn ofalgar iawn o'r plant ac yn disgwyl iddynt gyflawni'n dda mewn awyrgylch hapus.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon Cylch Meithrin Aberporth yn dda oherwydd bod:

- cysylltiadau da gyda'r rhieni a'r gymuned;
- yr arweinyddiaeth yn gadarn;
- y lleoliad yn adnabod beth sydd angen ei wella;
- y staff yn cydweithio'n dda fel tîm er lles y plant;
- y cylch yn cynllunio'n addas ar gyfer gwella; a bod y
- y pwyllgor rheoli yn effeithiol.

## Argymhellion

- A1 Parhau i ddatblygu dealltwriaeth y plant o ddiwylliannau eraill
- A2 Ehangu'r ffocws ar adnabod y camau nesaf wrth asesu mewn modd penodol a chyson
- A3 Sicrhau bod arfarniadau am waith y cylch yn rhoi sylw mwy manwl i ansawdd ac effaith y ddarpariaeth ar y plant

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu medrau sy'n addas i'w hoedran. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb yn eu gweithgareddau drwy wrando'n astud ar gwestiynau a storïau ac ymateb yn briodol. Maent yn mynegi eu hunain yn eglur mewn caneuon syml a thrwy ateb cwestiynau gyda gair neu ystum. Gall lleiafrif o'r plant fynegi eu hunain yn neilltuol dda wrth ailadrodd eu profiad, er enghraifft, wrth chwilio am drysor y môr ladron. Mae mwyafrif ohonynt yn datblygu ystod eang o eirfa Gymraeg ac yn dechrau ynganu geiriau newydd yn gywir. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn dechrau holi cwestiynau priodol ar draws ystod o weithgareddau. Gall llawer fynegi barn wrth ddewis ffrwyth a beth i'w brynu yn y siop bwced a rhaw.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gallu creu marciau bwriadus gyda brws paent a phensil, er enghraifft, wrth ysgrifennu cerdyn post neu ffurfio baner. Mae lleiafrif o'r plant yn ffurfio llythrennau eu henwau'n gywir. Mae bron pob plentyn yn edrych yn ofalus ar brint wrth wrando ar storïau am fôr ladron. Mae mwyafrif y plant yn gwybod pa synau sy'n cyfateb i llythrennau ac yn gallu darllen geiriau syml a chyfarwydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu dealltwriaeth o rifau'n dda gan gyfrif yn gywir ac adnabod y gwahaniaeth rhwng mwyaf a lleiaf. Mae llawer o'r plant yn defnyddio offer cyfrifiadurol, er enghraifft ffonau symudol a'r glieniadur i gyfathrebu'n hyderus.

#### Lles: Da

Mae'r plant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Maent yn hapus ac yn dangos diddordeb mawr yn eu gweithgareddau amrywiol. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau'r awyr agored ac yn dyfalbarhau gyda gweithgareddau, er enghraifft, wrth gydbwysu'n ofalus ar blanc y môr ladron.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis eu gweithgareddau'n hyderus. Maent yn ymateb yn fywiog, er enghraifft wrth chwilio am drysor yn y tywod neu wrth fynd ar daith ddychmygus i'r traeth gyda'i ffrindiau. Mae bron pob plentyn yn chwarae'n hwylus ac yn annibynnol gan ddangos agweddau da tuag at ddysgu.

Mae'r holl blant yn gwybod am bwysigrwydd hylendid personol trwy'r cynllun brwsio dannedd dyddiol a'r arfer dda o olchi dwylo cyn bwyta ffrwythau.

Mae bron pob plentyn yn cydweithio'n dda, yn mwynhau tacluso gyda'r oedolion ac yn ffurfio perthnasoedd da gyda'i gilydd. Maent yn barchus o'r offer a'r bobl o fewn y lleoliad. Yn ddieithriad, maent yn ymddwyn yn arbennig o dda ac yn ffurfio perthynas gadarn gydag oedolion.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

**Profiadau dysgu: Da**

Mae staff y cylch yn cynnig ystod o brofiadau cyfoethog i'r plant sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda. O ganlyniad, mae'r gweithgareddau'n ddiddorol ac yn apelio at ddychymyg y plant, er enghraifft, cymryd rhan mewn priodas ffug yn yr eglwys.

Gwneir defnydd cyson o'r ardal leol wrth gynnig profiadau diddorol i'r plant, er enghraifft, wrth ymweld â thraeth Aberporth a'r siop lyfrau leol. Mae'r plant yn elwa'n fawr hefyd oddi wrth ymweliadau â'r cylch gan y gwasanaeth tân, chwaraewyr rygbi a busnesau lleol.

Darperir cyfleoedd defnyddiol i'r plant er mwyn iddynt ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Gwneir defnydd effeithiol iawn o'r Gymraeg gan y staff ac mae hyn yn datblygu medrau siarad a gwrando'r plant yn dda iawn. Darperir gweithgareddau pwrpasol i ddathlu traddodiadau Cymreig fel Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r plant yn derbyn ambell gyfle i edrych ar ddiwylliannau eraill, er enghraifft wrth edrych ar batrymau Rangoli yn y dathliad o Diwali. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd wedi'u cynllunio'n ddigon manwl er mwyn rhoi sylw llawn i ddiwylliannau eraill.

Ceir anogaeth dda i'r plant i aildefnyddio sbarion bwyd er mwyn creu compost yn yr ardd. Mae'r plant yn derbyn cyfleoedd pwrpasol i ofalu am blanhigion gan ddefnyddio poteli llaeth wedi eu hailgylchu i ddyfrio'r blodau. Trwy hyn, mae'r plant yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r angen i ofalu am yr amgylchedd.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu'n dda yn y cylch. Gwneir defnydd medrus o holi pwrpasol er mwyn ennyn chwilfrydedd naturiol y plant. Mae'r staff yn dilyn trywydd diddordeb y plant yn gyson er mwyn datblygu eu dealltwriaeth, er enghraifft, wrth drafod creaduriaid y traeth.

Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau, er mwyn ysgogi'r plant gyda chyfarpar rhifo. Mae'r staff yn rheoli ymddygiad y plant yn dda ac yn ymyrryd yn ddoeth i gefnogi'r plant ac ymestyn eu dealltwriaeth, lle'n briodol. Ceir anogaeth fedrus er mwyn i blant sylwi'n fanwl iawn ar bethau yn yr amgylchedd, ac o ganlyniad, mae'r plant yn chwilfrydig iawn. Gwneir defnydd dychmygus o'r ardaloedd chwarae rôl i gymhell y plant a cheir anogaeth ragorol i blant ddatrys problemau. O ganlyniad, mae'r plant yn gwneud penderfyniadau ac yn datblygu eu geirfa'n effeithiol iawn.

Mae'r staff yn arsylwi'n fanwl ar fedrau disgyblion, er enghraifft wrth ymdrin â siswrn ac adnabod rhifau. Caiff asesiadau lled fanwl o gyflawniadau'r plant eu cadw'n rheolaidd. Mae camau nesaf ar gyfer dysgu yn cael eu nodi ond nid ydynt yn ddigon penodol bob tro er mwyn sicrhau cynnydd cyflym. Mae'r adroddiadau i rieni yn cyfleu datblygiadau'r plant ar draws meysydd y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y cylch bolisiau a gweithdrefnau cadarn er mwyn hyrwyddo iechyd a diogelu lles y plant. Darperir cyfleoedd buddiol i helpu'r plant i fod yn gorfforol ac emosiynol iach.

Mae'r cylch yn annog yr holl blant i barchu ei gilydd a gwneud penderfyniadau yn gyson, er enghraifft, wrth helpu plant i rannu diodydd gydag eraill ac archebu byrbrydau ar gyfer ei gilydd. Gwneir defnydd da o sesiynau i drafod teimladau a chynnyg gweddïau ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol y plant.

Mae'r cylch yn gwneud defnydd da o wasanaeth arbenigol, er enghraifft yr ymwelydd iechyd a'r gwasanaeth iaith a lleferydd i ddarparu arweiniad ar gyfer gofalu am blant y cylch. Caiff anghenion unigol y plant sylw teg. O ganlyniad, mae'r staff yn helpu'r plant i ddarostwng anawsterau er mwyn mwynhau'r holl ystod o weithgareddau sydd ar gael. Os oes angen cymorth ychwanegol, gwneir defnydd da o'r cynllun cyfeirio lleol.

Mae trefniadau diogelu'r cylch yn cydymffurfio â'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu ethos cynhwysol ac yn parchu pob plentyn fel unigolyn er mwyn sicrhau tegwch i bawb. Ymdrinnir â'r plant mewn modd cyfartal ac mae'r staff yn hyrwyddo parch a chwarae teg yn gyson. Mae'r staff yn siarad yn sensitif ac yn ystyrlon gyda'r holl blant. Mae'r cylch yn darparu naws deuluol, yn enwedig wrth i'r plant fwyta byrbryd gyda'i gilydd.

Mae'r staff yn meddu ar gymwysterau priodol i weithio gyda phlant ifanc. Mae digon o adnoddau addas o fewn y lleoliad er mwyn ateb gofynion y Cyfnod Sylfaen. Er bod yr adeilad yn gymharol fach yn fewnol, gwneir defnydd da ohono er mwyn ysbarduno'r plant. Ceir arddangosfeydd lliwgar a deniadol, sy'n dathlu cyflawniadau'r plant, o fewn y lleoliad. Mae'r cylch hefyd yn creu amgylchedd diddorol i'r plant er mwyn iddynt chwarae'n ddychmygus, er enghraifft yn y siop.

Mae'r ardal allanol wedi ei datblygu'n arbennig o dda er mwyn sicrhau lle addas i'r plant i ddatblygu'n gorfforol. Mae'r cylch yn lle diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n briodol. Gwneir defnydd da o'r ardal leol, er enghraifft y parc a'r swyddfa bost, er mwyn cyfoethogi profiadau'r plant.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddion y cylch yn dangos gweledigaeth gadarn o beth sydd angen ei wneud i hyrwyddo lles a datblygiad y plant yn eu gofal. O ganlyniad, mae gan yr holl staff ddealltwriaeth dda o rolau a dyletswyddau dyddiol wrth feithrin a datblygu medrau'r plant. Mae'r staff yn derbyn cyfarwyddid clir am yr hyn sydd angen ei



wneud, er enghraifft, wrth gynllunio ar y cyd. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo cydweithio tîm effeithiol iawn ac mae ymdeimlad bywiog o weithgarwch a phwrpas cadarn yn perthyn i'r cylch.

Mae gwaith aelodau'r pwyllgor rheoli yn effeithiol. Mae cadeirydd y pwyllgor yn wybodus iawn am berfformiad y cylch. Mae'r pwyllgor yn deall eu rolau a chyfrifoldebau wrth sicrhau polisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer cynnal y cylch yn effeithiol. Maent yn gwneud penderfyniadau doeth ac yn cysylltu gyda Mudiad Meithrin, Dechrau'n Deg a'r awdurdod lleol i sicrhau bod dyletswyddau'r pwyllgor yn dilyn y trywydd cywir. Rhoddir ystyriaeth drwyadl i flaenoriaethau cenedlaethol fel gweithredu'r Cyfnod Sylfaen a hybu medrau cyfathrebu Cymraeg y plant.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae ansawdd y cynllunio ar gyfer gwella yn gyffredinol dda. Nodir camau gweithredu addas, costau realistig ac ystyriaeth o bwy sy'n gyfrifol am beth, yn y cynllun gwella cyfredol. Rhoddir ystyriaeth fanwl hefyd i weithgareddau monitro. Fodd bynnag, nid yw'r deilliannau ar gyfer y plant yn gyson amlwg. O ganlyniad, mae'r camau gweithredu ar wella'r ddarpariaeth, ar brydiau, yn cael mwy o sylw na llwyddiant y plentyn.

Mae'r staff a'r pwyllgor rheoli yn edrych ar ystod dda o wybodaeth er mwyn ystyried holl waith y cylch. O ganlyniad, mae meysydd gwella yn cael eu nodi'n briodol mewn adroddiad hunanarfarnu cynhwysfawr. Mae holl ymarferwyr y cylch yn perthyn i'r broses hunanarfarnu o nodi a chreu gwelliannau. Gwneir defnydd da o farn rhieni er mwyn gwella ansawdd. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad hunan arfarnu yn gyson arfarnol.

Mae'r cylch yn cydweithio'n dda gyda'r Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol i rannu arferion da. Gwneir defnydd buddiol o awgrymiadau ar gyfer mynychu cyrsiau a cheir ymateb addas i'r targedau a osodir gan yr athrawes ymgynghorol. O ganlyniad, mae plant y cylch yn elwa o'r hyfforddiant mae'r staff yn ei dderbyn, er enghraifft, cwrs i arweinwyr ar ddefnydd effeithiol o adnoddau i godi safonau'r plant.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r cylch yn gweithio'n neilltuol dda gyda rhieni. Mae'r rhieni'n gwybod yn union beth sy'n digwydd yn y cylch trwy gyfrwng y we a thechnoleg symudol. Maent yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am ddiwyddiadau'r cylch a'r pwyllgor rheoli.

Yn ogystal, ceir anogaeth ddefnyddiol i rieni i gefnogi'r dysgu yn y cartref drwy ddarllen a chanu gyda'r plant. O ganlyniad, mae rhieni'n cysylltu gyda'r cylch ar y we ac yn teimlo'n bartneriaid llawn yn addysg eu plant.

Mae'r bartneriaeth gyda'r ysgol gynradd leol yn gadarn gyda chyfarfodydd ffurfiol i drafod cynnydd a chyflawniad y plant wrth iddynt drosglwyddo i'r dosbarth derbyn. Mae cyfathrebu gyda'r ysgol am sut mae'r plant wedi ymgartrefu ar ôl trosglwyddo yn nodweddiadol ofalgar iawn. Ceir partneriaethau buddiol, yn ogystal, gyda'r grŵp Ffrindiau Bach ar gyfer plant o dan bedair oed.

Mae'r cylch yn gwneud defnydd ardderchog o'r gymuned leol er mwyn cynorthwyo i ddatblygu'r safle yn lle addas ar gyfer gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r bartneriaeth i sefydlu gardd ar dir y lleoliad yn enghraifft dda o gydweithio llwyddiannus i gyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer plant y cylch.

Mae'r pwyllgor rheoli'n gweithio'n dda mewn partneriaeth ag eraill i ddiogelu nawdd ar gyfer prynu adnoddau pwrpasol.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae ymarferwyr arweiniol y cylch yn rheoli'r staff yn dda gan gynnig cyfleoedd pwrpasol i staff nodi eu hanghenion datblygu. O ganlyniad, mae'r staff yn derbyn hyfforddiant addas er mwyn gwella'r ddarpariaeth i'r plant, er enghraifft hyfforddiant ar fwyta'n iach a sut i ddatblygu iaith lafar y plant. Ceir cynllunio a myfyrio gonest ar berfformiad staff yn rheolaidd. Trwy hyn, mae cyfle i newid y ddarpariaeth os oes angen yn hytrach na pharhau ar drywydd aneffeithiol.

Mae staff yn cael eu lleoli yn bwrpasol iawn yn y cylch. O ganlyniad, mae goruchwyliaeth effeithiol o'r plant. Gwneir defnydd da o arbenigeddau a phrofiad yr ymarferwyr a thrwy hyn mae'r plant yn derbyn profiadau gwerthfawr.

Mae'r pwyllgor rheoli yn sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau o fewn y cyllid i ddarparu'n effeithlon ar gyfer y plant. Mae'r gwariant ar gyfer adnoddau yn glynu'n agos at y blaenoriaethau yn y cynllun gwella. Mae safonau a lles y plant yn dda, felly mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

#### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y cylch ac yn mwynhau chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

Helen Morgan-Rees

Arolygydd Cofnodol

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

## Rhestr termau

<b>AGGCC</b>	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
<b>Athro ymgynghorol awdurdod lleol</b>	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
<b>Y Cyfnod Sylfaen</b>	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed.
<b>Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)</b>	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
<b>Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)</b>	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
<b>Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)</b>	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
<b>Meysydd Dysgu</b>	<p>Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</li><li>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu</li><li>• datblygiad mathemategol</li><li>• datblygu'r Gymraeg</li><li>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</li><li>• datblygiad corfforol</li><li>• datblygiad creadigol</li></ul>
<b>Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)</b>	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

<b>Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)</b>	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
<b>Mudiad Meithrin</b>	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.